

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 18eg o Fehefin 2019

Presennol: Cyng. Sharon Wyn Parry (Cadeirydd)
Cyng. Celfyn Furlong
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Siân Enfys Jones
Cyng. Dyfed Williams

Gwr Gwadd Mr. Dylan Owen - Hwylusydd Tai Gwledig

Cyflwynodd Mr Owen ei hun fel Hwylusydd Tai Gwledig annibynnol yn gweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn a'r Cymdeithasau Tai Lleol. Roedd ei waith yn cynnwys cynnal arolygon anghenion tai, trefnu diwrnodau agor ac ati. Yna defnyddir y wybodaeth hon i asesu'r angen yn y dyfodol a sicrhau fod penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn seiliedig ar dystiolaeth.

Roedd tystiolaeth i awgrymu bod angen tai yn ardal Llanfair yn Neubwll, roedd 25 ar y rhestr aros am dai ar hyn o bryd a 9 o'r rhain yn bobl oedrannus. Roedd yna hefyd 9 o bobl wedi'u cofrestru gyda 'Tai Teg', sef cofrestr o bobl sydd angen unedau fforddiadwy neu sydd â diddordeb mewn prynu eiddo sydd yn fwy fforddiadwy nag eiddo sydd ar werth ar y farchnad agored.

Gwnaeth Mr Owen y Cyngor Cymuned yn ymwybodol o ddatblygiad posibl wrth Dol Eithin, lle'r oedd Tai Gogledd Cymru yn gobeithio adeiladu 20 o dai, (nid oedd y ddogfen cyn ymgeisio wedi'i chyflwyno eto). Cafwyd trafodaeth am y safle a'r ffaith bod llwybr cyhoeddus yn rhedeg trwyddo.

Cytunwyd y dylid anfon holiadur i bob preswlydd i sefydlu pa fath o gartrefi oedd eu hangen. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Cyngor Cymuned ofyn i Dai Gogledd Cymru am enwau'r ymgeiswyr er mwyn sicrhau fod tai fforddiadwy yn cael eu rhoi i drigolion lleol yn unig.

- 1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Beryl Salisbury a Cyng. Einir Thomas
- 2. Datganiad o ddiddordeb:** - Gordon Owen - HHP/2019/141 - Fron Deg, Caergeiliog
- 3. Cofnodion cyfarfod 21 o Fai 2019:**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Victor Owen.)
- 4. Materion yn codi o'r cofnodion:**
 1. Cae Chwarae - Cyflwynwyd adroddiad chwarterol Archwilydd y Cae Chwarae ac Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

roedd y sleid yn parhau i beri pryder. Nodwyd nifer o fân faterion eraill, ac roedd y rhain i gael sylw cyn gynted â phosibl. Nodwyd nad oedd Cyngor Tref Caergybi yn gallu cynorthwyo gydag unrhyw beth heblaw am atgyweiriadau bach iawn, byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau mewn manau eraill. Byddai arwyddion newydd yn costio £30 + TAW am arwyddion 300mm x 420mm, byddai'r clerc yn darganfod pa bostia oedd eu hangen cyn archebu.

2. Hysbysfwrdd – Cadarnhawyd nad oedd gan Bwyllgor Rheoli Neuadd Bentref wrthwynebiad i osod hysbysfwrdd yn erbyn y wal derfyn. Cafwyd dyfyn bris gan y Sign Factory (Ystâd Ddiwydiannol Mona) o £1804 + TAW â £400 pellach ar gyfer gosod (cloddio caled) am arwydd a fyddai'n cymryd 6 dalen maint A4. Cytunwyd i ystyried dewisiadau eraill ar-lein.
3. Lloches Fws – roedd Valley Forge wedi cytuno i gael golwg ar y lloches fws wrth Stad Tre Ifan.
4. Seddi Gwag - Roedd gan y Cyngor ddwy sedd wag y gellid eu llenwi trwy gyfethol. Byddai'r clerc yn paratoi Hysbysiad Cyfethol i'w ddsbarthu.
5. Mater Cynllunio Lon Minffordd - roedd y clerc wedi hysbysu CSYM bod mynedfa newydd wedi'i chreu wrth Fwthyn Minffordd. Nodwyd hefyd bod nifer o gartrefi symudol wedi'u lleoli ar dir Fron Wen. Cytunwyd i fonitro hyn.
6. Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion:
Roedd y bin ailgylchu dillad yn Iard Greenhough wedi ei symud.

5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:

5.1 Penderfyniadau cynllunio - dim

5.2 Ceisiadau Cynllunio

FPL/2019/160 Tyn Llan, Y Fali.

Cais llawn ar gyfer codi wal 3 medr uchel o fewn iard fferm – dim gwrthwynebiad.

5.3 **HHP/2019/141 - Fron Deg, Caergeiliog**

Cais llawn ar gyfer dymchwel yr adeilad allanol presennol ynghyd a codi dau fodurdu newydd a sied – dim gwrthwynebiad.

Aeth Cyng. Gordon Owen allan o'r ystafell pan drafodwyd hwn.

5.4 **FPL/2019/171 Maes Awyr Môn, Ffordd Minffordd, Caergeiliog**

Cais llawn ar gyfer dymchwel y ffens presennol ynghyd a codi ffens newydd - dim gwrthwynebiad.

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cytunwyd hefyd y dylid anfon llythyr at y Llu Awyr i fynegi pryderon am y nifer o ymwelwyr a welwyd yn dringo ffens derfyn i weld yr awyrennau.

6. **Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Mon Un Llais Cymru 27/06/2019
2. Forwm Cyngor Tref a Chymuned – cyfarfod nesaf nos Iau 18 Gorffennaf 2019 am 7yh.
3. Bwletin Un Llais Cymru
4. Un Llais Cymru - Modylau Dysgu Ar-Lein Sylfaenol – ar gyfer Cynghorwyr a'r Clerc yn cynnwys nifer o pynciau - Cod Ymddygiad, Y Cyngor fel Cyflogwr, Amrywiaeth a Chynhwysiant Iechyd a Diogelwch, Cyllid, y Gyfraith ac ati.
5. Mind - Cwrs rheoli pryder FW: 18 - 35
6. Trefniadau Archwiliad Mewnol - Cynghorau yng Nghymru. nodwyd y byddai gweminar ar Reolaeth Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Cymuned yn cael ei ddarlledu ar Orffennaf yr ail.

7. **Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr Adroddiad Ariannol ar gyfer Mai 2019 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc.

Yn y banc ar 18.6.2019 Cyfrif Cyfredol £10,996.14 Cyfrif Cadw £3,928.64

8. **Taliadau i'w gwneud**

Cyflog y clerc (Mai)	£237.09	Archwilio Cae Chwarae	£42.80
GMS INV-5239	£108		

9. **Cyfrifon 18/19**

Cafwyd cadarnhad gan yr archwiliwr mewnol fod y cyfrifon terfynnol mewn trefn a chytunwyd y dylai'r Cadeirydd a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ardystio'r Ffurflen Flynyddol a'i hanfon gyda'r dogfennau priodol i'r Archwiliwr Allanol.

10. **Unrhyw fater arall:**

Gofynnwyd i'r clerc hysbysu CSYM bod y wal wrth Stad Gerlan wedi syrthio.

11. **Cyfarfod Nesaf – 16 Gorffennaf 2019**

Llofnod.....Cadeirydd.....